# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-13-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 2 Mai 2006

### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Richard Miltiadis | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Frank Rae | Dadansoddwr Busnes |

## Cynhadledd fideo: Aelodau o Bwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban

| **Enw** |
|---|
| Sylvia Jackson MSP (Cynullydd) |
| Stewart Maxwell MSP |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Brynle Williams, Ann Jones, Christine Gwyther, Murray Tosh MSP

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-12-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Nododd y Cadeirydd mai dyna gyfarfod olaf y Dirprwy Glerc a diolchodd iddo am ei gymorth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 LC1271 – Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio) 2006

Ms Jackson gyflwynodd yr adroddiad i’r Pwyllgor. Nodwyd bod sawl Offeryn Statudol ar yr Agenda a oedd wedi dilyn y Weithdrefn Weithredol; a llawer ohonyn nhw wedi dod i rym ym mis Mawrth. Gan fod y Pwyllgor Deddfau wedi cyfarfod yn rheolaidd ym mis Mawrth, gofynnwyd pam y bu’n rhaid defnyddio’r weithdrefn weithredol gan y gallai’r Pwyllgor fod wedi craffu ar y ddeddfwriaeth. Cyfeiriodd Ms Jackson sylw’r Aelodau at y llythyrau esbonio oddi wrth y Gweinidog Busnes a oedd yn esbonio’r rhesymau dros ddewis y weithdrefn. Pryder arall oedd bod deddfwriaeth wedi’i gwneud, eto byth, yn uniaith Saesneg. Nodwyd hefyd ei bod yn glir bod deddfwriaeth uniaith yn broblem barhaus:

roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at amryw o'r Gweinidogion sawl tro i gyflwyno sylwadau ar y diffyg testunau Cymraeg. Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog Busnes i'w hannog i siarad â'i chydweithwyr yn y Cabinet am y problemau y mae deddfwriaeth uniaith yn eu creu ar gyfer sefydliad dwyieithog. Camau i'w cymryd: Y Cadeirydd/y Clerc. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.2 LC1276 - The Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 (Consequential Amendments to the Local Government Pension Scheme Regulations 1997 and Transitional Provisions) Order 2006

Mr Griffiths gyflwynodd yr adroddiad i'r Pwyllgor. Er bod sawl darn o ddeddfwriaeth ar yr Agenda yn uniaith Saesneg ac er y byddai'r Cadeirydd yn tynnu sylw'r Gweinidog Busnes at y sefyllfa, nodwyd bod y Gorchymyn penodol yma yn un byr ac na allai diffyg amser i'w gyfieithu fod yn esgus dros ei gyhoeddi yn uniaith. Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Sue Essex AC, i'w gwahodd i gyflwyno sylwadau ar y mater. Camau i'w cymryd: Y Cadeirydd/y Clerc. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.3 LC1278 – Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru) (Datgymhwyso Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4) 2006

Ms Jackson gyflwynodd yr adroddiad i'r Pwyllgor. Nodwyd bod y Rheoliadau yn cyfeirio at ACCAC – Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru. Roedd y corff yma wedi'i ddiddymu bellach ac roedd ei swyddogaethau wedi'u hysgwyddo gan Lywodraeth y Cynulliad. Gofynnwyd a oedd troednodyn yn ymdrin â'r pwynt yma, gan y gallai fod gwrthdaro rhwng dyletswyddau corff allanol o'i gyferbynnu â'r corff a oedd bellach yn gweithredu fel rhan o'r llywodraeth. Esboniodd Ms Jackson fod yna droednodyn felly yn y Rheoliadau a chytunodd y byddai'n syniad da sicrhau bod troednodiadau o'r fath ar gael mewn deddfwriaeth debyg yn y dyfodol. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.4 O ran yr Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1272 – The General Dental Services and Personal Dental Services Transitional and Consequential Provisions (Wales) Order 2006

LC1273 – The Functions of Local Health Boards and the NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) (Primary Dental Services) (Wales) Regulations 2006

LC1277 – Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006

LC1279 – Gorchymyn Deddf Addysg 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006

LC1280 - Gorchymyn Iechyd Planhigion (*Phytophthora ramorum*) (Cymru) 2006

## Eitem 5: Gohebiaeth y Pwyllgor

5.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod cyfarfod y Pwyllgor Deddfau ar 14.03.06 wedi ystyried yr adroddiadau drafft ar:

The Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006 (LC1234)

Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) (LC1235)

Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (LC1236)

sef deddfwriaeth a ddilynodd y weithdrefn weithredol. Gan ei bod yn rhy hwyr cywiro o dan weithdrefn y Memorandwm Cywiriadau, roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Gweinidogion o dan sylw i ofyn am eu sylwadau o dan Reol Sefydlog 11.6 cyn pennu manylion terfynol yr adroddiadau drafft.

5.2 Wedi ystyried ymatebion y Gweinidogion, cytunodd yr Aelodau y dylai adroddiad y Pwyllgor ar "Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (LC1236)" gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol. Dylai'r adroddiadau ar "The Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006 (LC1234)" a "Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) (LC1235)" gael eu diwygio i gynnwys cyfeiriad at sylwadau'r Gweinidog a'u cyflwyno i'r cyfarfod nesaf. Camau i'w cymryd: Y Cynghorwyr Cyfreithiol

Camau i'w cymryd

4.1 Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog Busnes i'w hannog i siarad â'i chydweithwyr yn y Cabinet am y problemau y mae deddfwriaeth uniaith yn eu creu ar gyfer sefydliad dwyieithog. Camau i'w cymryd: Y Cadeirydd/y Clerc.

4.2 Gan mai byr iawn oedd "The Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 (Consequential Amendments to the Local Government Pension Scheme Regulations 1997 and Transitional Provisions) Order 2006", cytunwyd na allai diffyg amser i'w gyfieithu fod yn esgus dros ei gyhoeddi yn uniaith. Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Sue Essex AC, i'w gwahodd i gyflwyno sylwadau ar y mater. Camau i'w cymryd: Y Cadeirydd/y Clerc.

5.2 Wedi ystyried ymatebion y Gweinidogion, cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiadau ar "The Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006 (LC1234)" a "Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) (LC1235)" gael eu diwygio i gynnwys cyfeiriad at sylwadau'r Gweindog

Eitem 6: Craffu ar Ddeddfwriaeth ar ôl Etholiadau'r Cynulliad yn 2007

## Cynhadledd Fideo gyda Phwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban

6.1 Cyflwynodd y Cadeirydd Aelodau o Bwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban: Sylvia Jackson MSP (Cynullydd) (Y Blaid Lafur) a Stewart Maxwell MSP (Plaid Genedlaethol yr Alban) a'u croesawu i'r gynhadledd fideo.

6.2 Ymddiheurodd y Cadeirydd am fethiant y cyfleusterau cyfieithu: gan mai dyma'r gynhadledd fideo gyntaf yn y Senedd, roedd y broses yn dal heb ei pherffeithio.

6.3 Nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cael amryw o bapurau ynghylch y Pwyllgor yn yr Alban a'i ymchwiliad ar fframwaith rheoleiddiol yr Alban ac y byddai'r Pwyllgor yn yr Alban yn cyhoeddi ei adroddiad Cam II drafft yn ddiweddarach yn y mis.

6.4 Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau o'r Alban am eu parodrwydd i rannu rhai o broblemau eu system bresennol nhw o ystyried deddfwriaeth ac is-ddeddfwriaeth (sydd wedi'i seilio ar system San Steffan) a rhoi rhyw syniad am sut roedden nhw'n bwriadu mynd i'r afael â nhw.

6.5 Esboniodd y Cynullydd (Sylvia Jackson MSP) i'r Aelodau fod dau gam i ymchwiliad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth. Ar hyn o bryd roedd yr ymchwiliad wrthi yn cwblhau ei ail gam. Yn ystod ei sesiynau tystiolaeth, roedd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth wedi nodi nifer o broblemau ac roedd yn barod bellach i wneud argymhellion ar sut i fynd i'r afael â'r problemau hynny.

6.6 Gofynnodd yr Aelodau sut roedd y craffu'n cael ei drefnu ar hyn o bryd os byddai deddfwriaeth yn cael ei phasio yn San Steffan a fyddai'n effeithio ar yr Alban ac yn dod yn gyfrifoldeb i'r Gweinidog perthnasol yn yr Alban wedyn. Cyfeiriodd y Cynullydd at Gonfensiwn Sewel sy'n caniatau i San Steffan i ddeddfu ar gyfer yr Alban ar faterion datganoledig yn ogystal ag ar faterion a gadwyd yn ôl. Esboniwyd bod Senedd yr Alban wedi datblygu gweithdrefn newydd lle'r oedd Gweithrediaeth yr Alban yn rhoi "Memorandwm o Gydsyniad i Ddeddfwriaeth" i'r Senedd i roi manylion mesur yn San Steffan sy'n effeithio ar yr Alban ac i roi gwybodaeth am ddarpariaethau perthnasol y byddai Senedd yr Alban yn craffu arnyn nhw drwy ei phwyllgorau. Cyfrifoldeb y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth oedd ystyried y darpariaethau hynny o San Steffan a oedd yn rhoi pwerau newydd i Weithrediaeth yr Alban i wneud is-ddeddfwriaeth. Roedd hyn yn weithdrefn newydd iawn a hyd yn hyn dim ond dau femorandwm o'r fath yr oedd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth wedi craffu arnyn nhw. Ar ddeddfwriaeth yr Alban yr oedd y Pwyllgor yn craffu yn bennaf.

6.7 Gofynnodd yr Aelodau beth oedd cyfraniad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar ddeddfwriaeth berthnasol o Ewrop a pha bryd roedd yn cael ei wneud; pa waith craffu ar y ddeddfwriaeth honno a'i heffaith ar yr Alban oedd yn cael ei wneud gan y Pwyllgor; pa weithdrefnau oedd ar gael i sicrhau na fyddai deddfwriaeth yr Alban yn torri deddfwriaeth Ewrop. Yr ateb oedd ei bod yn wir bod gweithdrefnau ar gael i sicrhau bod y ddeddfwriaeth a gâi ei phasio yn yr Alban yn gydnaws â

deddfwriaeth Ewrop, gan gynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Er bod y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn cyfrannu at sicrhau bod is-ddeddfwriaeth mewn Mesurau yn cydymffurfio â Chyfarwyddebau Ewrop, mae gan bwyllgorau pwnc Senedd yr Alban rôl yn nhermau craffu ar y polisi sydd wedi'i gynnwys mewn Mesurau a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y CE. Roedd gan Senedd yr Alban Bwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol hefyd a oedd yn monitro gwaith Gweithredaieth yr Alban yn nhermau Ewrop a materion Ewropeaidd. Roedd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn ymdrin yn bennaf â Deddfau Senedd yr Alban a Memoranda o Gydsyniad i Ddeddfwriaeth a oedd yn cyd-fynd â Mesurau'r Alban (yn ychwanegol at Offerynnau Statudol yr Alban). Addawodd y Cynullydd y byddai'n anfon gwybodaeth at y Cadeirydd am y gweithdrefnau ynglyn â chraffu ar ddeddfwriaeth o ran cydymffurfio â gofynion Ewrop. Dywedodd Rosemary Butler fod Pwyllgor ar Ranbarthau wedi'i sefydlu yn ddiweddar ym Mrwsel, gyda chynrychiolaeth o'r Alban. Byddai'r Pwyllgor hwnnw'n sicrhau bod y rhanbarthau yn cael gwybod yn gynnar am y ddeddfwriaeth Ewropeaidd a fyddai'n ymwneud â nhw.

6.8 Roedd cwestiwn arall yn ymwneud â llwyth gwaith y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth: faint o Fesurau a oedd yn cael eu pasio bob blwyddyn; a oedd y Pwyllgor yn craffu ar gyfreithlondeb y Mesurau; beth oedd y goblygiadau ar gyfer y Pwyllgor pan fyddai Mesurau'n cael eu pasio. Atebodd y Cynullydd fod agenda eu cyfarfod diweddaraf yn un nodweddiadol – i'r graddau bod "nodweddiadol" yn bodoli – roedd dau Fesur ar yr agenda a'r rheiny wedi cyrraedd cyfnodau gwahanol. Yn gyffredinol, roedd tri chyfnod yn ystod hynt y Mesur:

> y cyfnod cyntaf - ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur – pan fyddai'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn edrych ar y darpariaethau ynglyn â phwerau datganoledig yn y Mesur a'u rhagoriaethau technegol;
>
> yr ail gyfnod – ystyried gwelliannau i'r Mesur – byddai'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn craffu ar welliannau a fyddai'n mewnosod neu'n newid yn sylweddol ar ddarpariaethau a fyddai'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth;
>
> y trydydd cyfnod – cyfnod terfynol y Mesur – fyddai'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ddim yn cyfrannu bryd hynny, gan ei fod wedi sicrhau cytundeb gyda Gweithrediaeth yr Alban na fyddai honno fel rheol yn mewnosod pwerau is-ddeddfwriaeth sylweddol mewn Mesurau yn ystod y cyfnod yma. Er hynny, roedd yn dod yn glir bod nifer cynyddol o welliannau o'r fath yn dod i'r amlwg a bod angen craffu arnyn nhw yn dechnegol, ac roedd hyn yn peri pryder i'r Pwyllgor.

Heblaw'r Mesurau, roedd amryw o Offerynnau Statudol eraill ar agenda'r Pwyllgor, yn ogystal â materion eraill megis, er enghraifft, ystyried yr atebion a fyddai'n cael eu rhoi gan y Weithrediaeth i'r cwestiynau yr oedd y Pwyllgor wedi'u gofyn yn gynharach am offerynnau statudol neu am bwerau datganoledig mewn Mesurau. Ar y cyfan, roedd gan y Pwyllgor lwyth gwaith trwm. Er y gallai'r

cyfarfodydd bara awr i awr a hanner, roedden nhw’n golygu llawer o waith paratoi a llawer o ddeunyddiau i’w darllen. Roedd y Pwyllgor yn cyfarfod bob wythnos, gan roi adroddiadau i bwyllgorau pwnc ac i’r Senedd. Er bod y pwyllgorau pwnc yn craffu ar y materion polisi tra byddai’r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn canolbwyntio ar bwerau datganoledig a materion mwy technegol, roedd y naill yn bwydo’r llall ac er mwyn i ddeddfwriaeth basio’n rhwydd roedd angen rhoi sylw i’r ddwy agwedd. Ychwanegwyd bod dau ffactor yn gyrru gwaith y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth: gwaith y Weithrediaeth a’i hamserlen hi. Yn ôl Adroddiad blynyddol y llynedd, yn ystod y cyfnod 7 Mai 2005 - 6 Mai 2006 roedd y Pwyllgor wedi ystyried pedwar ar bymtheg o Fesurau yn y cyfnod cyntaf; deg Mesur fel y cawson nhw eu diwygio yn yr ail gyfnod a phedwar cant a dau a phedwar ugain o Offerynnau Statudol yr Alban.

6.9 Gofynnwyd am eglurhad ar y gwahaniaethau rhwng gwaith craffu y pwyllgorau pwnc a’r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth: beth oedd y cylchoedd gwaith. Esboniodd y Cynullydd fod y pwyllgorau pwnc yn craffu ar faterion polisi a bod y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn canolbwyntio ar y pwerau datganoledig mewn Mesurau ac ar eu rhagoriaethau technegol; pa bwerau a oedd yn cael eu rhoi i’r Gweinidogion – materion "vires" (dilysrwydd y darpariaethau); pa mor glir oedd gwaith drafftio yr Offerynnau Statudol – pa mor hawdd oedden nhw i’w deall.

6.10 Dywedwyd y byddai’r Cynulliad Cenedlaethol ar ôl 2007 yn parhau i weithio fel sefydliad dwyieithog ac y byddai’n rhaid iddo ddarparu’r holl ddeddfwriaeth yn y ddwy iaith. O ganlyniad i hynny, roedd cwestiwn arall yn ymwneud ag i ba raddau yr oedd yr Aeleg yn cael ei defnyddio yn Senedd yr Alban ac a oedd hynny’n debyg o gynyddu. Atebodd y Cynullydd y byddai rhai o Aelodau Senedd yr Alban o’r ardaloedd Gaeleg yn cyflwyno areithiau mewn Gaeleg, ond mai Saesneg oedd iaith gwaith y Senedd yn gyffredinol ac er bod yna drafod ar y pwnc, doedd hi ddim yn debyg y byddai’r defnyddio arni yn cynyddu yn y dyfodol agos.

6.11 I grynhoi, dywedwyd bod gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth lawer o waith i’w wneud wrth i Fesurau basio drwy Senedd yr Alban, gan ganolbwyntio ar y darpariaethau datganoledig mewn Mesurau a gwelliannau dilynol a oedd yn cynnwys darpariaethau datganoledig. O ganlyniad i hynny, roedd cwestiwn arall yn ymwneud â’r asesiad technegol ar y gwelliannau yma gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth. Atebodd y Cynullydd fod y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn dibynnu ar ei gynghorwyr cyfreithiol i roi cyngor ar Fesurau, ac ar yr wybodaeth a oedd wedi’i chynnwys ym Memoranda Esboniadol y Weithrediaeth sy’n cyd-fynd â phob deddfwriaeth. Pe bai’r Pwyllgor yn teimlo bod y Weithrediaeth heb roi digon o wybodaeth i’w helpu i ystyried, byddai’r Pwyllgor yn ysgrifennu at Adrannau’r Weithrediaeth i ofyn am ragor o ddata. Pe bai gwelliannau’r trydydd cyfnod yn anghywir yn dechnegol, y Siambr ei hun fyddai’r dyfarnwr terfynol, ond fe fyddai’r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn mynegi ei bryderon i’r Senedd naill ai drwy welliannau neu ar lafar yn y drafodaeth.

6.12 Roedd cwestiwn arall yn ymwneud â phwyso a mesur pa mor gadarn oedd y ddeddfwriaeth – ai Asesiadau Effaith Reoleiddiol oedd y ffordd fwyaf priodol i sicrhau bod ymgynghori priodol wedi digwydd a pha mor brofiadol oedd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn hyn o beth? Atebodd y Cynullydd fod yna le i wella yn hyn o beth yn ei barn hi a bod y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn edrych ar y mater yma fel rhan o’i Adolygiad. Ar hyn o bryd, ychydig o Asesiadau Effaith Reoleiddiol a geid ac roedden nhw’n tueddu i gael eu cyflwyno pan fyddai yna effaith ar fusnes. Roedd Ffederasiwn Busnesau Bach yr

Alban yn awyddus iawn i gael system a oedd yn cynnwys RIAs. Roedd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn credu y dylai RIAs gael eu cynhyrchu nid yn unig ar gyfer pob rheoliad sy’n effeithio ar fusnes, ond lle mae effaith ar gyrff eraill, megis y rhai mewn llywodraeth leol a’r sector gwirfoddol.

6.13 Roedd y cwestiwn nesaf yn ymwneud ag ansawdd a maint y ddeddfwriaeth yr oedd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn craffu arni: faint o sylwadau yr oedd rhaid i’r Pwyllgor eu cyflwyno i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn glir a chynhwysfawr. Atebodd y Cynullydd ei bod yn her barhaus gwneud y ddeddfwriaeth mor glir â phosibl ac mor gadarn â phosibl o safbwynt cyfreithiol ar yr un pryd. Roed llawer o wella wedi bod yng ngwaith drafftio’r ddeddfwriaeth a’r is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i waith y Pwyllgor hyd yn hyn, ond proses barhaus oedd hon. Fel rhan o’i Adolygiad, roedd y Pwyllgor wedi argymell sefydlu gweithgor cydgrynhoi a fyddai’n cynnwys, ymhlith eraill, swyddogion o’r Weithrediaeth a chlercod y Pwyllgor a fyddai’n gyfrifol am gyflwyno cynigion i’r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar gydgrynhoi is-ddeddfwriaeth. Esboniodd y Cynullydd mai’r farn gyffredinol yn San Steffan oedd bod deddfwriaeth neu is-ddeddfwriaeth yn cael ei chydgrynhoi os oedd gwelliannau wedi’u gwneud bum gwaith, ond yn ôl natur y gwelliannau, y gall fod angen cydgrynhoi ar ôl tri gwelliant weithiau. Roedd y Pwyllgor yn meddwl mewn ffordd debyg o ran yr argymhellion yn ymholiad y pwyllgor.

6.14 Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth o’r farn mai mater o addysgu cyfreithwyr ac aelodau/staff y Pwyllgor oedd defnyddio iaith blaen, glir wrth ddrafftio deddfwriaeth. Atebodd Stewart Maxwell MSP ei bod yn bendant yn fater o addysgu a bod y Pwyllgor yn gweithio ar hynny, ond bod defnyddio jargon y gyfraith yn dal yn bwnc llosg. Os nad oedd aelodau’r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn gallu deall rhai darnau o ddeddfwriaeth hyd yn oed gyda chymorth cyfreithiwr, meddai, yna roedd yn debyg iawn y byddai’n anos byth i’r cyhoedd. Roedd y rhan fwyaf o’r ddeddfwriaeth yr oedd Senedd yr Alban wedi’i hetifeddu gan San Steffan yn anodd i’w deall. Wrth i’r Pwyllgor gasglu gwybodaeth ar gyfer eu Hadolygiad, dywedodd Mr Maxwell fod y Pwyllgor wedi dysgu bod Senedd Sweden yn cyflogi ieithyddion yn unswydd i edrych ar eglurder yr iaith gyfreithiol mewn deddfwriaeth. Er hynny, roedd yna gydnabyddiaeth bod angen terminoleg gyfreithiol yn aml er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth neu is-ddeddfwriaeth yn dal dwr, ond ei bod yn gwestiwn o daro cydbwysedd lle'r oedd y derminoleg hefyd yn ddealladwy.

6.15 Roedd y cwestiwn nesaf yn ymwneud â’r cydbwysedd rhwng y weithdrefn negyddol a’r weithdrefn gadarnhaol. Yn y Cynulliad Cenedlaethol hyd yn hyn, y weithdrefn gadarnhaol oedd wedi’i defnyddio yn bennaf, gan mai dim ond pwer i wneud is-ddeddfwriaeth sydd gan y Cynulliad. Ond ar ôl 2007 byddai hynny’n newid ac roedd yn debyg y byddai’r mwyafrif o’r offerynnau statudol yn dilyn y weithdrefn negyddol. A oedd gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ran i’w chwarae mewn penderfynu pa weithdrefn y dylai darn o ddeddfwriaeth ei dilyn? Yr ateb oedd bod y ddeddfwriaeth sylfaenol yn nodi’r weithdrefn sydd i’w dilyn. Serch hynny, yn yr achosion hynny lle mae’r pwer yn un eang a’i fod, er enghraifft, yn dod o dan y weithdrefn negyddol yn unig, fe allai’r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth fod o’r farn y byddai’r weithdrefn gadarnhaol yn fwy priodol. Byddai hynny’n golygu craffu’n fanylach ar yr Offeryn Statudol, gan gynnwys cwestiynau i’r Gweinidogion gan y pwyllgorau pwnc. I gadarnhau bod y weithdrefn yn briodol, roedd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn defnyddio meini prawf gosod, oherwydd er y gallai’r materion fod yn dechnegol mewn rhai achosion, roedden nhw’n dal yn gallu creu

canlyniadau pur ddifrifol. Roedd effaith gwelliannau i offerynnau yn faes arall yr oedd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn canolbwyntio arno. Ar hyn o bryd, pan fyddai gwelliant i offeryn yn cael ei gynnig a bod y Weithrediaeth yn cytuno ag ef, byddai'n rhaid i'r offeryn gael ei dynnu'n ôl a'i gyflwyno eto. Roedd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn edrych ar bosibilrwydd cael proses lle byddai offeryn yn cael ei wella heb orfod cael ei ddirymu a'i ailgyflwyno, gan fireinio lawer iawn ar y broses.

6.16 Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynullydd a Stewart Maxwell MSP am gymryd rhan yn y gynhadledd fideo, a oedd wedi bod yn fuddiol iawn i Aelodau Pwyllgor Deddfau'r Cynulliad Cenedlaethol. Dywedodd y byddai'r wybodaeth yr oedd Aelodau'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth wedi'i rhoi hyd yn hyn yn berthnasol iawn a mynegodd ei obaith y bydden nhw'n ddigon caredig i anfon copïau o ddeunyddiau pellach yr Adolygiad pan gaen nhw eu cyhoeddi, gan gynnwys copi o'i adroddiad drafft.

## Eitem 7: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

7.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 9 Mai 2006.